O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1487 (Cy. 186)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 ac A483 a Thraffordd yr M4 (Hendy i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*1 Mehefin 2012*
Yn dod i rym	*11 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 11 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 ac A483 a Thraffordd yr M4 (Hendy i Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 11 Mehefin 2012 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A48